YSGOL SYR THOMAS JONES

PENTREFELIN AMLWCH, YNYS MÔN LL68 9TH

PENNAETH: MR R. AARON BAYLEY **DIRPRWY: DR G O JONES**

PENAETHIAID CYNORTHWYOL:
MRS MEFYS JONES-EDWARDS, MRS ELERI FOULKES, MRS MANDY ROBERTS.
RHEOLWR BUSNES: MISS SHANNON McDONALD

Dydd Iau y 14eg o Orffennaf 2022 / *Thursday the 14th of July 2022*

CROESAWU'R PENNAETH NEWYDD / *WELCOMING THE NEW HEADTEACHER*

Annwyl Rieni / Warcheidwaid,

Gyda diwedd y tymor yn prysur agosáu fe wnaethom addo cyflwyno'r pennaeth newydd i chi unwaith oedd y broses penodi wedi digwydd. Mae'n bleser gennyf eich hysbysu bod Mr Dylan Jones wedi'i benodi fel fy olynydd i'r swydd anrhydeddus hon. Mae Mr Jones yn Ddirprwy Bennaeth ar hyn o bryd yn Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda ac mae'n edrych ymlaen yn fawr iawn at gael ymuno â Theulu YSTJ! Gwn y byddwch yn rhoi croeso cynnes arferol Amlwch a'r cylch iddo yn ystod ei ddyddiau cyntaf yn dod i adnabod y gymuned.

Ar ran pawb yma yn YSTJ hoffwn ddiolch i chi yn fawr iawn am eich holl gefnogaeth yn ystod blwyddyn heriol, wahanol arall yn 2021-22. Dyma edrych ymlaen at flwyddyn ychydig mwy arferol flwyddyn nesaf gobeithio!

Yn bersonol, hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i chi gyd am y croeso ges i gan bawb wrth ymuno â'r ysgol yn ôl yn 2005 ac eich holl ymdrechion i gefnogi fi a'r tîm i wneud ein gorau dros y bobl ifanc. Byddaf yn cario atgofion melys iawn o fy amser yma ac yn sicr yn mynd a darn bach o Amlwch efo fi. Byddaf yn fythol ddiolchgar i bawb am y cyfeillgarwch a'r cyfle i wasanaethu cymuned mor arbennig.

Dymunaf pob hapusrwydd a iechyd i bob un person ifanc, pob teulu a phob un ffrind i'r ysgol.

Dear Parents / Guardians,

With the end of term fast approaching we promised to introduce the new headteacher to you once the appointment process had taken place. I am pleased to inform you that Mr Dylan Jones has been appointed as my successor to this honorable position. Mr Jones is currently Deputy Headteacher at Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda and is very much looking forward to joining the YSTJ Family! I know you will give him the usual warm Amlwch area welcome during his first days getting to know the community.

On behalf of everyone here at YSTJ I would like to thank you very much for all your support during another challenging and different year in 2021-22. Here's looking forward to hopefully a slightly more normal year next year!

Personally, I would like to take the opportunity to thank you all for the welcome I received from everyone when I joined the school back in 2005 and all your efforts to support me and the team to do our best for the young people. I will carry away very fond memories of my time here and will certainly take a small piece of Amlwch with me. I will be forever grateful to everyone for the friendships and the opportunity to serve such a special community.

I wish all the happiness and health to every young person, every family and every friend of the school.

Gyda chofion cynnes iawn am y tro olaf / *With warmest regards for the last time,*

R. Aaron Bayley
Pennaeth / Headteacher